# Polisi Preifatrwydd UCAC

**1. Ynglŷn â'n Polisi Preifatrwydd**

**1.1.** Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 ("**GDPR**") yn cynnwys gofynion ychwanegol yn ymwneud â diogelu data, gan ehangu ar y rhwymedigaethau a amlinellir yn y Ddeddf Diogelu Data 1998. Gweler isod wybodaeth bwysig am sut y mae UCAC yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y GDPR.

**1.2.** Mae'r polisi preifatrwydd hwn (y **Polisi**) yn perthyn i'r wefan https://www.ucac.cymru/, unrhyw is-barthau neu unrhyw wefan gysylltiedig o'r fath a/neu raglen symudol ar gyfer gwefan o'r fath a'n **Ffurflenni Aelodaeth** a'n **Ffurflen Newid Manylion Aelodaeth.**

**1.3.** Mae'r Polisi hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig am sut y byddwn yn defnyddio'ch Data (fel y diffinnir isod yng nghymal 3.1). O dan rai amgylchiadau (gweler isod) bydd gofyn i chi nodi'ch caniatâd i brosesu'ch Data fel yr amlinellir yn y Polisi hwn pan fyddwch chi'n cyflwyno Data o'r fath yn y lle cyntaf trwy ein Gwefan neu Ffurflen Aelodaeth. Am wybodaeth bellach am ganiatâd, gweler cymal 6 isod.

**1.4** Os byddwn ni'n newid y Polisi hwn byddwn yn postio'r newidiadau ar y dudalen hon, ac yn gosod hysbysiadau ar dudalennau eraill y Wefan fel y bo'n briodol, fel eich bod chi'n ymwybodol o'r Data a Gwybodaeth yr ydym yn eu casglu a sut yr ydym yn eu defnyddio bob amser. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod chi'n ymwybodol o fersiwn ddiweddaraf y Polisi hwn.

**1.5** Diweddarwyd y Polisi ddiwethaf ar [14 Mai 2018).

**2. Amdanom ni**

**2.1.** Mae'r termau "UCAC" neu "ni" yn cyfeirio at Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, perchennog y Wefan. Rydym yn undeb llafur y mae ein prif swyddfa yn Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU. Mae'r term "chi" yn cyfeirio at yr unigolyn sy'n cyflwyno Data i'r Wefan neu'n llenwi Ffurflen Aelodaeth neu Ffurflen Newid Manylion Aelodaeth.

**2.2.** Gellir cysylltu â ni, fel y Rheolydd Data, trwy'r Ysgrifennydd Cyffredinol a Swyddog Diogelu Data, Elaine Edwards, ar e-bost at rheolidata@ucac.cymru neu ffonio 01970 639950.

**3. Diffiniadau**

**Gweler i diffiniadau isod:**

**3.1** At ddibenion Cyfraith Diogelu Data cymwys, ni (UCAC) yw'r **Rheolydd Data** a chan hynny rydym yn gyfrifol am, ac yn rheoli prosesu, eich data personol yn unol â Chyfraith Diogelu Data cymwys.

**3.2** Mae gan "**data personol**" ddiffiniad cyfreithiol ond, yn gryno, mae'n cyfeirio at wybodaeth y gellir adnabod person byw ohoni. Rhaid i wybodaeth o'r fath gael ei diogelu yn unol â Chyfraith Diogelu Data cymwys.

**3.3** Mae gan "**data categori arbennig**" ddiffiniad cyfreithiol ond, yn gryno, mae'n cyfeirio at wybodaeth yn ymwneud â chrefydd, rhywioldeb, anabledd, credoau gwleidyddol neu iechyd person adnabyddadwy a bydd yn cynnwys manylion unrhyw aelodaeth undeb llafur, gan gynnwys eich aelodaeth, os o gwbl, o UCAC.

**3.4** Mae "**Cyfraith Diogelu Data**" yn golygu: y Ddeddf Diogelu Data 1998 (hyd nes ei diddymir) ("**DPA**"), y Gyfarwyddeb Diogelu Data (95/46/EC) (hyd nes ei diddymir) ac, o 25 Mai 2018, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016/679 ("**GDPR**") neu unrhyw ddarpariaeth gyfwerth a allai ddisodli'r GDPR yn dilyn gwahaniad gwleidyddol ffurfiol y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd; Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000; y Rheoliadau Telegyfathrebu (Arfer Busnes Cyfreithlon) (Ymyrryd â Chyfathrebu) 2000 (SI 2000/2699); Cyfarwyddeb Diogelu Data Cyfathrebu Electronig (2002/58/EC); Rheoliadau Cyfathrebu Electronig a Phreifatrwydd (Cyfarwyddeb EC) 2003 (SI 2426/2003); a'r holl ddeddfau a rheoliadau cymwys a allai fod mewn grym o bryd i'w gilydd yn ymwneud â phrosesu Data Personol a phreifatrwydd, gan gynnwys ble fo'n gymwys yr arweiniad a'r codau arfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod goruchwylio arall, ac unrhyw beth sydd gyfwerth ag unrhyw rai blaenorol mewn unrhyw awdurdodaeth berthnasol;

**3.5** Bydd "d**ata personol**", "**data categori arbennig**", "**rheolydd data**" a "**phrosesu**" â'r ystyron a roddir iddynt yn y Ddeddf Diogelu Data (DPA) neu, o 25 Mai 2018, y GDPR.

## 4. Gwybodaeth y gallem ei chasglu amdanoch chi

**4.1.** Pan fyddwch chi'n defnyddio'r Wefan, yn cyflwyno Ffurflen Aelodaeth neu Ffurflen Newid Manylion Aelodaeth a/neu pan fyddwch chi'n delio â ni fel arall, fe allem gasglu'r wybodaeth (**data**) a ganlyn amdanoch chi:

- gwybodaeth bersonol gan gynnwys enw cyntaf, enw olaf a dyddiad geni;
- gwybodaeth gyswllt gan gynnwys cyfeiriad cartref, prif gyfeiriad e-bost a/neu brif rif ffôn;
- gwybodaeth am eich gwaith gan gynnwys, teitl eich swydd, lle'r ydych chi'n gweithio a'ch cyfeiriad gwaith a rhif ffôn;
- gwybodaeth dalu gan gynnwys cyfeiriad bilio a manylion cyfrif banc;
- gwybodaeth dechnegol gan gynnwys cyfeiriad IP, system weithredu, math o borwr a gwybodaeth gysylltiedig yn ymwneud â'r ddyfais a ddefnyddiwyd gennych chi i gael mynediad at y Wefan a manylion eich rhyngweithiadau â'r Wefan.

**5. Y diben a'r sylfaen gyfreithiol dros brosesu**

**5.1.** Ni fyddwn yn prosesu'ch data oni bai bod gennym "sylfaen gyfreithiol" (h.y. rheswm a ganiateir yn gyfreithiol) dros wneud hynny. At ddibenion y Polisi hwn, amlinellir ein sylfaen gyfreithiol dros brosesu'ch Data yn y tabl isod.

| **Pam y byddwn yn prosesu'ch Data** | **Y sylfaen gyfreithiol dros wneud hynny** |
|---|---|
| prosesu taliadau aelodaeth | mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer cynnal y cytundeb rhyngom ni; prosesir eich Data i alluogi i ni ddarparu gwasanaethau i chi fel aelod. |
| i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys rhwymedigaethau yn ymwneud â diogelu Data Personol | yn ôl y gofyn gan (ond heb ei gyfyngu i) unrhyw gais neu orchymyn gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith a/neu CthEM (HMRC) mewn cysylltiad ag unrhyw ymchwiliad i helpu i atal gweithgaredd anghyfreithlon. |
| cysylltu â chi trwy'r post, ffôn, e-bost neu destun i ateb ymholiad gennych chi neu i'ch cynghori chi a chynnal gwaith achos ar eich rhan | mae hyn yn angenrheidiol i gynnal y cytundeb rhyngom ni; prosesir eich Data er mwyn ein galluogi ni i ddarparu gwasanaethau i chi fel aelodau. ** |
| eich hysbysu chi am wasanaethau eraill a'u darparu i chi | mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol ar gyfer y buddiannau cyfreithlon yr ydym yn eu ceisio ** |
| eich annog chi i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r undeb, ymgyrchoedd perthnasol, rhannu'ch barnau a chynnal ymgyrchoedd, a recriwtio aelodau newydd | mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol ar gyfer y buddiannau cyfreithlon yr ydym yn eu ceisio ** <br><br> (ni fyddwn yn cysylltu â chi i'ch annog i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn trwy e-bost oni bai eich bod chi wedi rhoi eich caniatâd at y diben penodol hwn) |
| eich annog chi i gymryd rhan ym mhroses ddemocrataidd yr undeb (gan gynnwys pleidleisiau cudd a phleidleisiau statudol a mynychu cyfarfodydd undeb yn lleol ac yn rhanbarthol) | mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer cynnal y cytundeb rhyngom ni; prosesir y Data er mwyn galluogi inni ddarparu gwasanaethau i chi fel aelod. |
| eich hysbysu chi am fuddion eraill i aelodau, gan gynnwys cynigion sydd ar gael i aelodau UCAC gan nifer o gwmnïau. Mae hyn yn cynnwys postio dogfennau, e.e. Yr Athro, Blwyddlyfr, a allai gynnwys hysbysebion gan gwmnïau. (Nid yw UCAC yn derbyn | os byddwn yn cysylltu â chi trwy'r post mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol ar gyfer y buddiannau cyfreithiol yr ydym yn eu ceisio ** |

| | |
|---|---|
| unrhyw gomisiwn gan y cwmnïau hyn). Gweler Marchnata ac Optio Allan yng nghymal 9. | ni fyddwn yn cysylltu â chi at ddibenion marchnata trwy e-bost oni bai eich bod chi wedi rhoi eich caniatâd at y diben penodol hwn. |
| i ymchwilio a mynd i'r afael ag unrhyw sylwadau, ymholiadau neu gwynion a wnaed gennych chi yn ymwneud â'n gwasanaethau, ac unrhyw sylwadau, ymholiadau neu gwynion tebyg neu gysylltiedig gan aelodau eraill. | mae hyn yn angenrheidiol i gynnal y cytundeb rhyngom ni; prosesir y Data er mwyn galluogi inni ddarparu gwasanaethau i chi fel aelod. |
| i greu proffil ystadegol o aelodau UCAC ar sail data cronnus, dienw a gesglir trwy'r ymchwil a'r dadansoddiad. | mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol ar gyfer y budd cyfreithiol yr ydym yn ei geisio ** |
| datgelu eich gwybodaeth i drydydd partïon dethol fel y caniateir yn y Polisi hwn (gweler 10 isod). | Mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol ar gyfer cynnal y cytundeb rhyngom; prosesir y Data er mwyn galluogi inni ddarparu gwasanaethau i chi fel aelod<br><br>Os nad yw'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol, bydd y prosesu hwn yn amodol ar eich caniatâd – lle y mae'n cael ei roi ar wahân – at y diben arbennig hwnnw (edrychwch ar gymal 6 isod at y diben hwnnw). |

** Y tu hwnt i hyn, mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol i geisio'r buddiannau cyfreithlon, yn amodol arnoch chi yn codi gwrthwynebiad o dan gymal 7.6, sy'n gofyn i UCAC wirio nad yw ein budd yn y prosesu wedi'i drechu gan y risg canlyniadol i'ch hawliau a'ch rhyddid.

**6. Eich caniatâd i brosesu**

**6.1.** Bydd gofyn i chi roi caniatâd i rai gweithgareddau prosesu cyn y gallwn brosesu'ch Data fel yr amlinellir yn y Polisi hwn. Ble fo'n berthnasol, byddwn yn ceisio'r caniatâd hwn gennych chi pan fyddwch chi'n cyflwyno'r Data yn y lle cyntaf neu trwy'r Wefan neu'r Ffurflen Aelodaeth.

**6.2.** Os ydych chi wedi rhoi caniatâd o'r blaen fe allech chi dynnu caniatâd o'r fath yn ôl unrhyw bryd. Gallwch wneud hyn trwy eich cyfrif ar y Wefan neu trwy ein hysbysu ni yn ysgrifenedig neu mewn e-bost.

**6.3.** Os byddwch chi'n tynnu'ch caniatâd yn ôl, ac os nad oes gennym sylfaen gyfreithiol arall dros brosesu'ch gwybodaeth, yna byddwn yn rhoi'r gorau i brosesu'ch Data. Os oes gennym sylfaen gyfreithiol arall dros brosesu'ch gwybodaeth yna fe allem barhau i wneud hynny yn amodol ar eich hawliau cyfreithiol (gweler cymal 7 isod).

6.4 Nodwch os byddwn ni angen prosesu'ch Data er mwyn gweithredu'r Wefan a/neu ddarparu ein gwasanaethau, a'ch bod chi'n gwrthwynebu neu nad ydych chi'n caniatáu i ni brosesu'ch Data, efallai na fydd y Wefan a/neu'r gwasanaethau hynny ar gael i chi.

## 7. Beth yw fy hawliau fel rhywun sydd wedi rhannu data personol gyda chi?

Fel gwrthrych y data (rhywun sydd wedi rhannu eich data personol gyda ni) mae gennych yr hawliau a ganlyn o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Os dymunwch ddefnyddio unrhyw rai o'ch hawliau cyfreithiol dylech roi eich cais yn ysgrifenedig i ni (gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y Polisi Preifatrwydd) gan roi digon o wybodaeth i ni i'ch adnabod chi ac ymateb i'ch cais:

### 7.1. Yr hawl i gael eich hysbysu

Mae hawl gennych dderbyn gwybodaeth yn ymwneud â threfniadau prosesu data UCAC, e.e. pwy sydd â chyfrifoldeb am reoli data o fewn UCAC; pwrpas prosesu'ch data; pa mor hir byddwn yn cadw'ch data; gyda phwy byddwn yn rhannu eich gwybodaeth. Mae'r Polisi Preifatrwydd yn amlinellu'r wybodaeth yma.

### 7.2. Yr hawl i fynediad at eich data

Mae gennych hawl i ofyn am fynediad i wybodaeth am ddata personol y gallem fod yn ei chadw a/neu brosesu amdanoch chi, gan gynnwys:

- p'un a ydym ni'n cadw a/neu yn prosesu eich data personol;
- graddau'r data personol yr ydym yn ei gadw;
- a dibenion a graddau'r prosesu.

### 7.3 Yr hawl i gywiro

Mae hawl gennych i gael unrhyw wybodaeth anghywir yr ydym yn ei chadw amdanoch chi wedi'i chywiro a/neu ei diweddaru. Os ydych yn dymuno diweddaru eich data neu os dewch yn ymwybodol o unrhyw wallau, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig gan roi digon o wybodaeth i ni ddelio â'r newid neu gywiriad.

### 7.4 Yr hawl i ddileu

Mae hawl gennych o dan rai amgylchiadau i ofyn i ni ddileu'r holl ddata personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi. Nid yw'r hawl dileu hwn ar gael o dan bob amgylchiad, e.e. os oes angen i ni gadw data personol at ddibenion cydymffurfiad cyfreithiol. Os yw hyn yn wir, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

### 7.5 Yr hawl i gyfyngu ar brosesu

Mae gennych yr hawl o dan rai amgylchiadau i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu'ch data personol, e.e. os yw'r data personol yn anghywir neu os ydych chi wedi gwrthwynebu i'r prosesu (gweler cymal 7.7 isod).

### 7.6 Yr hawl i gludadwyedd data

Mae hawl gennych i geisio copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi ac i chi ei dderbyn mewn fformat strwythuredig sy'n addas i chi allu ei drosglwyddo i reolydd data gwahanol. Sylwer mai dim

ond o dan rai amgylchiadau y mae'r hawl i gludadwyedd data, e.e. lle mae'r prosesu yn cael ei gynnal trwy ddulliau wedi'u hawtomeiddio. Os byddwch chi'n ceisio'r hawl i gludadwyedd data ac nad yw ar gael i chi, fe rown wybod i chi.

**7.7 Yr hawl i wrthwynebu**

Mae gennych yr hawl o dan rai amgylchiadau i wrthwynebu i brosesu'ch data personol. Os felly, byddwn yn rhoi'r gorau i brosesu'ch Data Personol oni bai y gallwn ddangos seiliau cyfreithlon digonol a chymhellol dros barhau i brosesu sy'n drech na'ch buddiannau eich hun. Os, o ganlyniad i'ch amgylchiadau, nad oes gennych yr hawl i wrthwynebu i brosesu o'r fath yna fe rown wybod i chi.

**7.8 Hawliau mewn perthynas â phenderfyniadau a phroffilio awtomataidd**

Nid yw UCAC yn defnyddio prosesau penderfynu neu broffilio awtomaidd mewn perthynas â'ch Data.

**8 Eich data personol**

**8.1** Os nad ydych chi'n rhoi gwybodaeth gywir a chyfredol i ni fe fydd hi'n anos i chi gael mynediad at ein holl wasanaethau a buddion. Gofynnwn i chi adolygu'r wybodaeth o bryd i'w gilydd i sicrhau ei bod yn gywir. Gallwch ddiweddaru'ch gwybodaeth unrhyw bryd trwy fynd ar-lein (dolen at Mewngofnodi Aelodaeth), trwy e-bost aelodaeth@ucac.cymru ar y ffôn 01970 639950 neu trwy ddychwelyd y Ffurflen Newid Manylion Aelodaeth.

**8.2** Gallwch ofyn am gopi o'ch data personol unrhyw bryd.

**9 Marchnata ac optio allan**

**9.1** Nid yw UCAC yn rhannu eich data personol gydag unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata uniongyrchol.

**9.2** Mae rhai elfennau o gyfathrebu gan UCAC, e.e. eich annog i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd neu ymchwil gan UCAC, eich hysbysu o gynigion arbennig i aelodau UCAC allai fod o ddiddordeb i chi, eich annog i recriwtio aelodau newydd, anfon Cylchlythyron, ac ati, yn cael eu cyfrif yn farchnata. Mae UCAC yn ceisio caniatâd er mwyn anfon negeseuon e-bost atoch am y materion hyn. Gallwch ddewis os ydych yn dymuno derbyn y gwybodaeth yma ar ffurf e-bost ai peidio. Gallwch newid eich dewisiadau ar unrhyw bryd er mwyn peidio â derbyn y math yma o negeseuon e-bost gan UCAC (gweler isod).

**9.3** Mae gennych yr hawl unrhyw bryd i ofyn i ni roi'r gorau i brosesu'ch gwybodaeth at y dibenion hyn. Os dymunwch ddefnyddio'r hawl hwn, dylech gysylltu â ni trwy anfon e-bost at aelodaeth@ucac.cymru, gan roi digon o wybodaeth i ni eich adnabod chi a delio â'ch cais. Fel arall, gallwch ddilyn y cyfarwyddiadau dad-danysgrifio mewn negeseuon e-bost y byddwch chi'n eu derbyn oddi wrthym.

## 10 Datgelu eich gwybodaeth

**10.1** Ar gyfer rhai gweithgareddau, rhaid i ni ddefnyddio prosesydd allanol i brosesu'ch data personol:

- er mwyn prosesu'ch taliadau aelodaeth (darparwyr BACS / BANC Unity Trust)
- mewn rhai achosion, bydd angen i ni dalu treuliau teithio i chi, e.e. am fynychu cyfarfodydd Cyngor Cyffredinol, cyfarfodydd pwyllgor neu adrannol mewnol UCAC (BANC Unity Trust)
- er mwyn postio Yr Athro a rhai dogfennau eraill (Cwmni cyhoeddi perthnasol a chwmni sydd yn cynnig gwasanaeth sortio post er mwyn i ni allu manteisio ar gostau rhatach)
- pan fyddwn yn cynnal pleidlais gudd e.e. am etholiad am swydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol; am weithredu diwydiannol (Electoral Reform Services)

**10.2** At y dibenion hyn byddwn yn rhannu cyn lleied o'ch data personol â phosibl ar gyfer y prosesu.

## 11 Data personol categori arbennig

**11.1** Efallai y byddwn yn casglu data categori arbennig amdanoch chi os ydych chi yn ei wirfoddoli wrth lenwi'ch Ffurflen Aelodaeth (megis manylion yn ymwneud â'ch aelodaeth ag UCAC ac unrhyw anabledd).

**11.2** Efallai byddwch yn cysylltu ag UCAC am gymorth ac yn datgelu data personol categori arbennig ar yr adeg honno.

**11.3** Os byddwch chi'n gwirfoddoli gwybodaeth o'r fath, byddwn yn ei phrosesu ar sail y tabl isod:

| **Data Categori Arbennig** | **Y sylfaen gyfreithiol dros...** | **Yr amod ar wahân ar gyfer prosesu yw…** |
|---|---|---|
| Prosesu, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, storio, recordio, casglu data categori arbennig o'r fath fel aelodaeth undeb llafur (UCAC neu undeb llafur arall), data yn ymwneud ag iechyd, neu ddata yn datgelu tarddiad hiliol neu ethnig. | mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol ar gyfer y buddiannau cyfreithlon yr ydym yn eu ceisio ** | cynhelir y prosesu hwn gyda chamau diogelu priodol yn ystod hynt gweithgareddau cyfreithlon UCAC, fel undeb llafur. |
| Efallai y bydd angen i ni rannu data categori arbennig gyda chynrychiolwyr UCAC yn eich gweithle (e.e. gwybodaeth am bwy sydd yn aelod o UCAC, er | mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cynnal y cytundeb rhyngom ni a phrosesir y data i'n | mae'r prosesu hwn (yn enwedig datgelu) yn angenrheidiol i sefydlu, ymarfer neu ddiogelu hawliau cyfreithiol, neu'n cael ei gynnal gyda chamau diogelu |

| | | |
|---|---|---|
| mwyn i'r cynrychiolydd yn eich gweithle allu drefnu cyfarfodydd undeb), neu gyda thrydydd partïon (e.e. cyfreithwyr, cynrychiolydd o'ch darparwr pensiwn, neu gynrychiolydd o'ch cyflogwr). Byddwn ond yn rhannu'r data personol sy'n ofynnol i'w rannu er mwyn eich cynrychioli'n effeithiol. | galluogi ni i ddarparu gwasanaethau i chi fel aelod. | priodol yn ystod hynt gweithgareddau cyfreithiol UCAC, fel undeb llafur.<br><br>Efallai y byddwn yn gofyn am eich caniatâd cyn y byddwn ni'n rhannu'r data categori arbennig hwn (data personol sensitif) trwy ofyn i chi lewni ffurflen ganiatâd gwaith achos |

** yn amodol arnoch chi yn codi gwrthwynebiad o dan gymal 7.6, sy'n gofyn i UCAC wirio nad yw'n budd yn y prosesu wedi'i drechu gan y risg ganlyniadol i'ch hawliau a rhyddid

**11.4** Gallwch ofyn am gopi o'ch data categori arbennig unrhyw bryd.

## 12 Am ba mor hir byddwch chi'n cadw data personol a data categori arbennig?

**12.1** Mae UCAC yn cadw'r data personol yr ydych chi'n ei rannu gyda ni tra byddwch chi'n aelod.

**12.2** Pan fyddwch chi'n dod â'ch aelodaeth i ben, byddwn yn archifo'ch data personol. Mae cyfrifoldeb arnom i'ch cynrychioli chi os ydych chi'n wynebu cyhuddiad hanesyddol a bydd angen i ni archifo rhai manylion fel tystiolaeth o'ch aelodaeth. Gallwch ofyn i ni ddileu'r holl fanylion ar unrhyw adeg.

**12.3** Byddwn yn dileu data categori arbennig pan fyddwch yn terfynu aelodaeth heblaw am fanylion o'ch aelodaeth o UCAC ac unrhyw ddata categori arbennig sydd wedi'i gofnodi mewn ffeiliau achos.

**12.4** Yn arferol byddwn yn cadw ffeiliau achos am 6 mlynedd o gau'r achos ac o fewn 6 mlynedd o derfyni'ch aelodaeth fan pellaf.

**12.5** Ac eithrio'r enghraifft a nodir uchod yn 12.2, os mai'r sylfaen gyfreithiol dros y prosesu yw:

- cynnal y cytundeb a darparu gwasanaethau i chi; neu
- mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol ar gyfer y buddiannau cyfreithlon yr ydym yn eu ceisio, ac eithrio lle mae buddiannau o'r fath wedi'u trechu gan eich buddiannau neu ryddid sylfaenol chi; neu
- lle mae'n ofynnol gan unrhyw gais neu orchymyn gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith a/neu CThEM mewn cysylltiad ag unrhyw ymchwiliad i helpu i atal unrhyw weithgaredd anghyfreithlon,

mae dyletswydd gyfreithlon arnom i gadw gweddill eich gwybodaeth am 6 blynedd.

**12.6** Os mai'r sylfaen gyfreithiol dros y prosesu yw 'ch caniatâd, hynny yw, at ddibenion marchnata, dim ond gyda'ch caniatâd parhaus y byddwn yn cadw data o'r fath a gallwch ei dynnu yn ôl ar unrhyw bryd.

## 13. Diogelwch

**13.1** Mae cyfrinachedd a sicrhau diogelwch eich data personol yn bwysig iawn i UCAC. Mae'r wybodaeth bersonol yr ydych chi'n ei rhannu gyda ni yn cael ei chadw'n ddiogel. Rydym yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ddiogelu gwybodaeth sy'n cael ei chadw'n electronig.

- Mae cwmni TGCh a chwmni cynnal a chadw'r bas-data yn sicrhau lefel uchel o ddiogelwch electroneg a bod modd diweddaru'r manylion yn brydlon ac effeithiol gan ddileu'r manylion yn ddiogel pan fydd angen .
- Mae mynediad at ddata a data categori arbennig yn cael ei gyfyngu i'r gweithwyr a'r proseswyr allanol sydd angen cael mynediad at y wybodaeth er mwyn i UCAC eich gwasanaethu chi'n effeithiol.
- Mae gweithwyr UCAC yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch y wybodaeth sy'n cael ei storio'n electronig neu mewn ffeiliau achos ar bapur.
- Mae gan ein holl weithwyr Gymal Cyfrinachedd yn eu cytundeb cyflogaeth sy'n rhwym yn ystod eu cyflogaeth a phan ddaw'r gyflogaeth i ben.
- Mae gennym brosesau diogelu data clir a chadarn ar gyfer diogelu data personol a data personol categori arbennig sydd yn cael ei storio'n electronig neu ar bapur sydd yn cyfyngu mynediad at y data.
- Mae gennym delerau penodol yn ymwneud â diogelu data yn ein cytundebau gyda phroseswyr allanol.

## 14. Polisi Cwcis

**14.1.** Rydym yn defnyddio Google-analytics sy'n cynhyrchu ystadegau a gwybodaeth ddienw am ein defnyddwyr trwy ddefnyddio Cwcis. Weithiau byddwn yn gosod ffotograffau neu fideos o wefannau allanol megis YouTube. O ganlyniad, pan fyddwch chi'n dewis tudalen sy'n cynnwys gwybodaeth wedi'i gosod gan ddarparwyr gwasanaeth allanol, efallai y byddwch chi'n dod ar draws cwcis o'u gwefannau hwy. Nid yw ein Gwefan yn rheoli defnydd ar y cwcis hyn a dylech chi wirio polisi cwcis y gwefannau perthnasol am wybodaeth bellach.

**14.2.** Defnyddia ein Gwefan gwcis a meddalwedd olrhain a monitro arall i: wahaniaethu rhwng un defnyddiwr a'r llall; casglu gwybodaeth log Rhyngrwyd safonol; ac i gasglu gwybodaeth am ymddygiad yr ymwelydd. Defnyddir y wybodaeth i olrhain rhyngweithiadau defnyddiwr gyda'r Wefan ac mae'n caniatáu i ni gynnig profiad da i chi wrth i chi gael mynediad i'r Wefan, yn ein helpu ni i wella ein Gwefan, ac yn caniatáu i ni lunio adroddiadau ystadegol ar ymwelwyr â'r Wefan a gweithgaredd y Wefan. Bydd y data hwn yn cael ei gronni neu'n ystadegol, sy'n golygu na fyddwn ni'n gallu'ch adnabod chi'n unigol.

**14.3.** Gallwch newid eich Gosodiadau Porwr i beidio â derbyn cwcis os dymunwch chi hynny, serch hynny, efallai na fydd rhai o nodweddion ein Gwefan yn gweithio os byddwch chi'n tynnu cwcis o'ch Gwefan. Am wybodaeth gyffredinol bellach am gwcis, ewch i www.aboutcookies.org neu www.allaboutcookies.org.]

**15. Trosglwyddiadau rhyngwladol: a yw UCAC yn rhannu data personol gyda gwledydd eraill?**

Amherthnasol.

**16. Pwy sy'n gyfrifol am Ddiogelu Data o fewn UCAC?**

**16.1.** Cysylltwch ag UCAC os oes gennych chi unrhyw ymholiad neu bryderon am ein gweithdrefnau Diogelu Data. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd Cyffredinol ar rheolidata@ucac.cymru neu 01970639950.

**16.2.** Os oes gennych chi unrhyw bryderon am sut yr ydym yn casglu neu'n prosesu'ch Data, yna mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn gydag awdurdod goruchwylio sef Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU ("**ICO**"). Gellir cyflwyno cwynion i'r SCG (ICO) trwy linell gymorth ICO trwy ffonio 0303 123 1113. Mae gwybodaeth bellach am adrodd am gwynion i'r ICO ar gael yn https://ico.org.uk/concerns/

**17. Cysylltwch â ni**

**17.1.** Croeswn eich adborth a'ch cwestiynau am y Polisi Preifatrwydd hwn. Os dymunwch gysylltu â ni, anfonwch e-bost atom ni at rheolidata@ucac.cymru neu ffoniwch 01970 639950.